*This document is available in English*

Eitem Agenda 12

| | |
|---|---|
| Adroddiad i | **Y Pwyllgor Archwilio** |
| Dyddiad | **16 Mawrth 2026** |
| Swyddog Arweiniol | **Helen MacArthur, Prif Swyddog Tân Cynorthwyol, Cyllid ac Adnoddau** |
| Swyddog Cyswllt | **Helen MacArthur** |
| Pwnc | **Asesiad Ansawdd Allanol** |

**PWRPAS YR ADRODDIAD**

1 Pwrpas yr adroddiad hwn yw rhoi ymwybyddiaeth i'r Aelodau o'r gofyniad i archwilwyr mewnol Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (yr Awdurdod) gydymffurfio â'r Safonau Archwilio Mewnol Byd-eang (GIAS) a'r trefniadau ar gyfer cael sicrwydd ynghylch cydymffurfiaeth.

**CRYNODEB GWEITHREDOL**

2 Mae'n ofynnol i archwilwyr mewnol yr Awdurdod, MIAA, gydymffurfio â Safonau Archwilio Mewnol Byd-eang (GIAS). Mae GIAS yn gofyn am gynnal asesiad ansawdd allanol bob pum mlynedd.

3 Mae'r adroddiad a gynhwysir yn Atodiad 1 yn rhoi cadarnhad o'r dull a fabwysiadwyd gan MIAA i fodloni'r gofyniad hwn. Bydd y dull yn cynnwys hunanasesiad blynyddol gyda dilysiad allanol bob pum mlynedd gan aseswr annibynnol. At y diben hwn, bydd y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus (CIPFA) yn darparu'r dilysiad allanol.

4 Bydd y sicrwydd allanol yn cael ei gynnal yn ystod 2025/26 ac yn cael ei adrodd i gyfarfod y Pwyllgor Archwilio yn y dyfodol.

**ARGYMHELLION**

5 Argymhellir bod yr Aelodau yn:

**i) Nodi a chymeradwyo'r dull a ddefnyddiwyd gan MIAA i gyflawni ei rwymedigaethau o dan y Safonau Archwilio Mewnol Byd-eang.**

**GOBLYGIADAU**

| | |
|---|---|
| Amcanion Llesiant | Mae gwaith archwilio mewnol yn rhoi sicrwydd ar yr amgylchedd rheoli sy'n cefnogi cyflawni amcanion llesiant a chynaliadwyedd tymor hwy gwasanaethau'r Awdurdod. |
| Cyllideb | Mae sicrhau ansawdd allanol gwaith archwilio mewnol yn rhoi sicrwydd bod gwariant yn cyflawni ei amcanion arfaethedig. |
| Cyfreithiol | Mae trefniant archwilio mewnol effeithiol yn un o ofynion Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014. |
| Staffio | Dim effaith uniongyrchol ar staffio. |
| Cydraddoldebau / Hawliau Dynol / Y Gymraeg | Dim effaith uniongyrchol |
| Risgiau | Mae'r archwiliad mewnol o brosesau ariannol craidd yn cefnogi nodi a rheoli risgiau'n effeithiol ac mae'r sicrwydd ansawdd allanol yn cefnogi'r gwaith hwn. |